

Cylchlythyr Eiriolaeth

Rhif Rhifyn 1 Hydref 2020

Lansiad Swyddogol Prosiect HOPE

Rydym yn falch o gyflwyno prosiect newydd cyffrous sy'n barod i gefnogi pobl hŷn (50+) a gofalwyr ledled Cymru.

Lansiwyd y prosiect HOPE (Helping others to participate and engage) yn swyddogol ar 6 Hydref 2020 gyda chymorth gan y Dirprwy Weinidog Julie Morgan ac enwogion Cymru, megis Roy Noble.

Partneriaeth yw prosiect HOPE rhwng Age Cymru, partneriaid lleol Age Cymru a phartneriaid Age Connects Wales ar draws Cymru gyfan. Ariennir y prosiect gan Lywodraeth Cymru dan y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy tan ddiwedd Mawrth 2023.

Mae tri ar ddeg o staff y prosiect bellach yn eu swyddi ac eisoes yn gweithio gyda phobl hŷn, gofalwyr, gwirfoddolwyr a sefydliadau ledled Cymru.

Bydd y prosiect newydd cyffrous hwn yn cefnogi pobl i ymgysylltu, cymryd rhan, ennill gwybodaeth, lleisio eu barn, deall eu hawliau, gwneud dewisiadau, cael eu cynnwys, rhannu profiadau, codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth, a datblygu sgiliau a gwybodaeth.

Bydd HOPE yn darparu cymorth eiriolaeth ar lefel gymunedol drwy ystod o fodelau eiriolaeth gan recriwtio cyn darparu hyfforddiant a chefnogaeth lawn i wirfoddolwyr y prosiect.

Ni fyddwn yn darparu eiriolaeth am dâl nac unrhyw fath o eiriolaeth statudol ac ni fyddwn yn dyblygu gwasanaethau cyfredol. Yn hytrach byddwn yn gweithio gyda'r darparwyr eiriolaeth presennol ar draws Cymru ac yn cvd-fynd â nhw.

Bydd staff a gwirfoddolwyr HOPE hefyd yn ymgysylltu â chymunedau a all ein harwain i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarparwn yn briodol ar gyfer anghenion pobl hŷn a gofalwyr yn eu hardaloedd. Bydd fforymau yn cael eu datblygu i'n cefnogi ni i ymgysylltu â chymunedau neu byddwn yn gweithio gyda rhai sydd eisoes wedi'u sefydlu, os oes rhai. Drwy'r fforymau, bydd HOPE yn adnabod ac yn cefnogi Llysgenhadon Eiriolaeth, a fydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau a dewisiadau, a phwysigrwydd, buddion a chanlyniadau eiriolaeth.

Bydd HOPE hefyd yn sefydlu rhaglen o hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau a fydd yn galluogi eiriolwyr ac arbenigwyr eraill ledled Cymru i ddatblygu eu sgiliau a gwybodaeth.

Bydd HOPE yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau llawer o bobl hŷn nad ydynt ar hyn o bryd yn gwybod sut i ymdrin â'u pryderon neu nad oes ganddynt yr hyder i godi eu llais am yr hyn sydd ei angen arnynt go iawn. Bydd y prosiect hwn yn helpu i daflu goleuni ar eu hanghenion a'u dyheadau fel y gallant fyw bywyd mwy boddhaus ac urddasol yn ddiweddarach yn eu hoes.

Ar hyn o bryd, mae HOPE yn recriwtio ac yn hyfforddi gwirfoddolwyr mewn cymunedau ledled Cymru i ddarparu cymorth eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn a gofalwyr lleol fel y gallant helpu i lunio'r penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar eu bywydau ac i osgoi argyfwng.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y prosiect, y lansiad, sut i wirfoddoli a sut i ddefnyddio'r gefnogaeth - cysylltwch â

advocacy@agecymru.org.uk

neu ewch i

www.agecymru.org.uk/advocacy

Ein tîm newydd

Rhagwelwn erbyn yr amser y byddwn yn dosbarthu'r cylchlythyr hwn y bydd y swyddi terfynol wedi'u llenwi a byddwn yn dîm llawn o bymtheg aelod.

Pwyswch ar y ddolen isod i weld yr holl fanylion cyfredol sydd ar gael ar gyfer cysylltu ag unrhyw aelod o'r tîm prosiect HOPE.

[Cysylltwch â'n Tîm](#)

Gair gan un o aelodau newydd ein tîm: Nick Hughes

Fy enw i yw Nick Hughes ac yn ddiweddar ymunais â theulu Age Cymru fel Swyddog Prosiect Wreccsam a Sir y Fflint yn gweithio ar y prosiect HOPE (Helping others participate and engage).

Rwyf yn edrych ymlaen yn arw at gael cymryd rhan yn y prosiect HOPE a fydd yn gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau pobl. Nod y prosiect HOPE yw darparu eiriolaeth lefel isel yn y gymuned i bobl hŷn (50+) a gofalwyr i'w grymuso nhw i ddweud eu dweud, deall eu hawliau a chymryd rhan.

Mae HOPE yn brosiect partneriaeth felly rwy'n gweithio'n agos iawn ag Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru sydd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol yn sefydlu'r prosiect hwn yn y rhanbarth. Gyda chymorth Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru, dw i wedi llwyddo i gysylltu â sawl sefydliad ledled Sir y Fflint a Wreccsam i roi'r gair ar led ynglŷn â'r prosiect HOPE ac ysgogi sgysiau ynghylch sut i weithredu'r prosiect ar draws y rhanbarth.

Mae'r sefydliadau yr wyf wedi sgwrsio gyda nhw i gyd wedi bod yn groesawgar i'r prosiect ac edrychaf ymlaen at weithio gyda nhw yn y dyfodol.

Mi fydda i'n yn parhau i gael y sgysiau hyn gyda sefydliadau ac yn cysylltu ag eraill i sicrhau ein bod yn cyrraedd yr holl bobl hŷn a all fod angen cymorth ein heiriolwyr gwirfoddol. Yn ogystal, mae'r broses recriwtio gwirfoddolwyr yn mynd rhagddi a mi fydda i'n yn edrych ymlaen yn arw at gael croesawu'r eiriolwyr gwirfoddol dros y rhai misoedd nesaf.

Mae'r prosiect HOPE wedi cael dechrau hynod gadarnhaol a'r prif ffocws wrth i ni edrych tua'r dyfodol yw lledaenu ymwybyddiaeth o'r prosiect HOPE yn y rhanbarth a recriwtio gwirfoddolwyr arbennig i ddarparu'r cymorth eiriolaeth.

nick.hughes@agecymru.org.uk

07493 186749

Y Digwyddiad Mawr

Mae'r prosiect HOPE yn cynnal y "Digwyddiad Mawr" Eiriolaeth yn ystod yr wythnos yn dechrau 19 Hydref 2020 a'r wythnos yn dechrau 2 Tachwedd 2020.

Mae thema'r "Digwyddiad Mawr" yn cyfunioni â chanfyddiadau'r arolwg diweddar "Eiriolaeth yn ystod COVID-19". Ymgwymerwyd â'r arolwg hwn er mwyn deall yr effaith ar bobl yn ogystal â sut oedd y sector eiriolaeth yng Nghymru yn gallu ymateb a chefnogi pobl yn ystod argyfwng COVID-19. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn fuan yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg.

Yn dilyn trafodaeth yn nigwyddiadau rhwydwaith eiriolaeth, mae'r tîm HOPE yn trefnu "Digwyddiad Mawr" eleni yn rhithwir drwy gynnal cyfres o weminarau ar gyfer darparwyr eiriolaeth oedolion ledled Cymru. Bydd dwy i dair gweminar yn ystod y pythefnos a bydd pob un wedi'u hwyluso ac yn cynnwys arbenigwyr yn trafod y pynciau canlynol:

- Canfyddiadau gwneud penderfyniadau cyffredinol yn ystod pandemig COVID-19.
- Hawliau pobl/hawliau dynol yn cael eu diystyru yn ystod y cyfnod clo.
- Effaith iechyd meddwl ymhlith staff a chleientiaid a'u llesiant yn ystod y cyfnod clo.
- Pam bod y nifer o bobl sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer eiriolaeth wedi lleihau mor sylweddol a'r heriau mae hyn wedi'u hachosi i bobl.
- Egwyddorion darparu eiriolaeth yn ystod COVID-19 a thu hwnt.
- Effaith y cyfnod clo ar ofalwyr ac effaith gwasanaethau cefnogi yn cael eu tynnu'n ôl.

Y Digwyddiad Mawr (parhad)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r "Digwyddiad Mawr", cofiwch gysylltu â'r prosiect HOPE neu Kath Hawkins, Swyddog Hyfforddiant, prosiect HOPE ar: Advocacy@agecymru.org.uk

Katherine.hawkins@agecymru.org.uk

Y Cyfryngau ac Adnoddau

Un o dasgau cyntaf y prosiect oedd cynhyrchu neges dros dro yn nodi beth oedd y prosiect HOPE ac yna dogfen cwestiynau cyffredin.

Dilynwch y dolenni isod i gael gweld y dogfennau hyn a theimlwn y byddant yn rhoi blas i bawb ar beth mae'r Prosiect HOPE yn ei gefnogi.

[Neges dros dro y Prosiect HOPE](#)

[Cwestiynau cyffredin y Prosiect HOPE](#)

Eiriolaeth Dementia

Mae Age Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Gymdeithas Alzheimer i sicrhau bod y gwasanaeth eiriolaeth yn gallu parhau. I'r perwyl hwn, cafwyd grant am gyfnod o ddeunaw mis i redeg hyd at fis Mawrth 2022.

Rydym wrth ein bodd y gall eiriolaeth Dementia barhau ledled Cymru Rhagor o wybodaeth i ddilyn.

dementiaadvocacy@agecymru.org.uk

Gwefan Age Cymru

Erbyn hyn mae gwefan Age Cymru wedi'i ddiweddarau'n llawn i ddarparu

[tudalen newydd y prosiect HOPE.](#)

Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraid

Efallai fod y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraid wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2020 ond bydd pawb yn gallu defnyddio'r holl adnoddau defnyddiol a gwerthfawr a gafodd eu cynhyrchu dros y pedair blynedd y gweithredodd y rhaglen. Dolen i'r dudalen isod.

Egwyddorion eiriolaeth ar gyfer y coronafeirws a thu hwnt

Mae'r egwyddorion gweithredu hyn yn ceisio sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn ystod y pandemig Covid-19 (coronafeirws) a thu hwnt yn cael eu clywed a'u hystyried. Bydd yn fwyaf defnyddiol i eiriolwyr a sefydliadau eiriolaeth yn i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau eiriolaeth ac aelodau eu teulu, i Sefydliadau Pobl Anabl, i arbenigwyr gofal cymdeithasol ac iechyd, ac i'r rheiny sy'n comisiynu gwasanaethau eiriolaeth.

Hyrwyddir y ddogfen bwysig gan y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant. Darllenwch gynnwys y ddolen isod, a phe dymunech, ymunwch â sefydliadau eraill a hyrwyddo egwyddorion y ddogfen drwy'r Cyfarwyddiadau ar y dudalen olaf.

[Egwyddorion eiriolaeth ar gyfer y coronafeirws a thu hwnt.](#)

Newid i gymwysterau i eiriolwyr annibynnol yng Nghymru

Gwybodaeth gan Karen Wakelin Gofal Cymdeithasol Cymru:

Mae cymwysterau ar gyfer eiriolwyr annibynnol yng Nghymru yn newid; mae Tystysgrif/Diploma lefel tri City and Guilds ar gyfer Eiriolaeth Annibynnol wedi'i ddisodli ers 1 Medi 2020 gyda chymhwyster lefel pedwar City and Guilds: Arfer Broffesiynol mewn Eiriolaeth Annibynnol.

O bryd i'w gilydd, bydd eiriolwyr annibynnol yn symud i rolau gwahanol yn y sector eiriolaeth, e.e. o IMHA i IMCA. Roedd gan yr hen Dystysgrif/Diploma lefel tri ddarpariaeth i ddysgwyr ymgymryd ag unedau atodol annibynnol; caiff y cymhwyster lefel pedwar newydd ei asesu mewn modd gwahanol ac nid yw'r unedau atodol ar gael bellach.

Mae disgwyliad i'r holl gyflogwyr gefnogi gweithwyr sy'n symud i rôl newydd i ddatblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ymgymryd â swyddogaethau eu rôl - mae hyn yr un mor berthnasol i eiriolwyr annibynnol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithio gyda'r sector eiriolaeth i ddatblygu [fframwaithcymhwysedd](#) gan ddefnyddio cynnwys yr unedau llwybr o'r cymhwyster eiriolaeth annibynnol lefel pedwar newydd. Mae'n berthnasol i'r holl eiriolwyr annibynnol sy'n newid rolau p'un ai a ydynt yn meddu ar yr hen gymhwyster lefel tri neu'r cymhwyster lefel pedwar newydd.

Mae'n adnodd y gall cyflogwyr eu defnyddio ochr yn ochr â'u prosesau sefydlu a phrawf; gellir defnyddio cofnod cynnydd a slip cwblhau'r fframwaith cymhwysedd fel tystiolaeth i ddangos bod yr eiriolwr wedi'i gefnogi i ddatblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol ar gyfer ei rôl. Mae'r fframwaith cymhwysedd yn disodli unedau cymhwyster 'atodol'. Cewch restr gyfan y cymwysterau a argymhellir i eiriolwyr annibynnol yn y [Fframwaith Cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant rheoledig](#).

O 1 Medi 2020, bydd Tystysgrif/Diploma lefel tri City and Guilds mewn Eiriolaeth Annibynnol yn dod yn rhagflaenwr cymhwyster neu gymhwyster gwaddol a restrir dan yr adran 'cymwysterau eraill'. Bydd yn parhau i gael ei dderbyn ar gyfer ymarfer ac **nid oes disgwyliad** i'r rheiny sy'n meddu ar y cymhwyster Tystysgrif/Diploma lefel tri gwblhau'r cymhwyster lefel pedwar newydd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y trefniadau newydd, cysylltwch â:

Karen.Wakelin@socialcare.wales

Wythnos Ymwybyddiaeth Eiriolaeth 26 hyd at 30 Hydref 2020

Mae'r wythnos hon yn rhoi amser a lle i ni i archwilio a chyfathrebu rhai o'r materion pwysig sy'n wynebu'r sector eiriolaeth a'r bobl yr ydym yn eu cefnogi a'u cynrychioli. Cafodd rhai o'r materion hyn eu pwysleisio a'u gwaethygu eleni. Mae pandemig y Coronafeirws wedi bod yn sylweddol i ni gyd, yn newid y ffordd yr ydym ni gyd yn gweithio, byw, cymdeithasu a chysylltu. Mae hefyd wedi newid y ffyrdd yr ydym yn cael cefnogaeth i fod yn iach a byw y bywydau yr hoffem eu byw. Mynediad at eiriolaeth annibynnol

Mae rôl eiriolaeth yn cefnogi pobl i ddweud eu dweud, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chynnal hawliau, wedi bod yn allweddol yn sawl achos. Mae #AAW20 yn gyfle arbennig i rannu ein straeon llwyddiant a phwysleisio beth sydd angen newid. Mae prosiect HOPE wedi sicrhau cyfweiliad gyda Beti George o Radio Cymru a fydd ar gael i'w weld ar wefan Age Cymr cyn bo hir.

Bydd NDTi yn cyfrannu at Wythnos Ymwybyddiaeth Eiriolaeth am y drydedd flwyddyn.

Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gymryd rhan yn y fenter hon a chyfrannu ar gael drwy ddilyn y ddolen isod.

[Wythnos Ymwybyddiaeth Eiriolaeth 2020](#)

Rhwydweithiau Eiriolaeth

Mae ystod o rwydweithiau darparwyr eiriolaeth rhanbarthol wedi'u datblygu ledled Cymru i ategu at waith y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth i Oedolion yng Nghymru. Mae'r rhwydweithiau yn gyfle i wasanaethau sy'n darparu eiriolaeth ar hyn o bryd, a'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny yn y dyfodol, i gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa gyfredol yn y rhanbarth, cyfleoedd comisiynu posibl a allai godi yn y dyfodol ac i gael gofod i rwydweithio a rhannu gwybodaeth a syniadau.

Isod ceir manylion y rownd nesaf o gyfarfodydd rhwydweithiau rhanbarthol a fydd yn digwydd dros Zoom neu Teams:

Gogledd Cymru 24 Tachwedd 2020 2pm - 4pm

Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth i

Oedolion
25 Tachwedd 2020 2pm - 4pm

Powys 7 Rhagfyr 2020 10am - 12.30pm

Cwm Taf Morgannwg 8 Rhagfyr 2020 2pm - 3.30pm

Gwent - I'w gadarnhau

Caerdydd a'r Fro - I'w gadarnhau

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Marc Forster ar 07932 989656 neu marc.forster@agecymru.org.uk

Cyngor Age Cymru

Gall llinell gyngor Age Cymru gynnig cyngor diduedd, rhad ac am ddim ar amrywiaeth o bynciau.

Efallai eu bod eisiau cyngor ar faint y dylent fod yn ei dalu am ofal rhywun annwyl iddynt? Neu efallai eu bod am wybod a ydynt yn gymwys am Gredyd Pensiwn ac eisiau help i'w hawlio?

Gall Cyngor Age Cymru gynorthwyo gyda'r holl faterion hyn, a mwy - ffoniwch ni heddiw ar

0300 303 44 98

Cysylltwch â ni...

- I danysgrifio i'r e-fwletin neu gylchlythyr
- Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau
- A oes unrhyw beth yr hoffech chi ei weld yn yr e-fwletin neu gylchlythyr nesaf?

E-bost: sue.vaarkamp@agecymru.org.uk

sue.vaarkamp@agecymru.org.uk

T: 01352 706228

Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i newid erthyglau a gyflwynwyd i'w cyhoeddi. Nid barn Age Cymru yw'r rhai a gyflwynir yn y Cylchlythyr hwn o reidrwydd.

Derbynnir hysbysebion a mewnosodiadau yn ddidwyll, ond nid yw cynhyrchion neu wasanaethau y cyfeirir atynt drwy hynny'n cael eu cymeradwyo neu eu hargymell gan Age Cymru.

**Age Cymru
Llawr Gwaelod,
Tŷ Mariners,
Llys Trident
Heol East Moors,
Caerdydd, CF24
5TD**

Ff: 029 2043 1555

[E: enquiries@agecymru.org.uk](mailto:enquiries@agecymru.org.uk)

www.agecymru.org.uk

Rhif elusen gofrestredig: 1128436 Rhif cwmni cofrestredig: 6837284

© Age Cymru 2020

